# Ardaloedd Bioamrywiaeth yng Nghonwy

Da ar gyfer bywyd gwyllt a phobl

# Biodiversity Areas in Conwy

Good for wildlife and people



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

www.conwy.gov.uk

## Beth yw Bioamrywiaeth?

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o blanhigion a bywyd gwyllt o'n cwmpas. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i ymrwymo i gadw a hybu bioamrywiaeth.

## Beth yw Ardaloedd Bioamrywiaeth yng Nghonwy?

Mae Ardaloedd Bioamrywiaeth ar dir o eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu sydd wedi'i reoli gan y Cyngor. Rydym yn rheoli'r mannau hyn er budd bywyd gwyllt ac rydym yn annog mynediad arnynt er mwyn i bobl eu mwynhau. Mae dros trideg o'r mannau hyn ar draws Conwy, rhai ohonynt ger ardaloedd mwy lle mae'r gwair yn cael ei dorri'n rheolaidd. Mae Ardaloedd Bioamrywiaeth yn cael eu rheoli gan Adain Barciau'r Cyngor mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gyda chefnogaeth y Cynghorau Cymuned a Thref perthnasol. Hefyd, mae gwarchodfeydd natur mwy ledled Conwy, nad ydynt yn cael eu trafod yn y daflen hon.

## Sut mae rheoli Ardaloedd Bioamrywiaeth?

Mewn Ardaloedd Bioamrywiaeth rydym yn gadael i'r gwair dyfu'n hir yn yr haf ac yn ei dorri ar ôl i'r blodau hadu. Dyma sut roedd dolydd yn cael eu rheoli yn draddodiadol.

## What is Biodiversity?


Biodiversity is the variety of plants and wildlife around us. Conwy County Borough Council is committed to conserving and promoting biodiversity.

## What are Biodiversity Areas in Conwy?

Biodiversity Areas are on land owned or managed by Conwy County Borough Council. We manage these areas for the benefit of wildlife and encourage access onto them for people to enjoy. There are over thirty of these areas across Conwy, some of them adjacent to larger regularly-mown areas. Biodiversity Areas are managed by the Council's Parks Section in partnership with the Countryside and Rights of Way Service, with the support of the relevant Community and Town Councils. In addition, there are also larger nature reserves throughout Conwy, which are not discussed in this leaflet.

## How do we manage Biodiversity Areas?

On Biodiversity Areas we leave the grass to grow long in the summer then cut it after the flowers have set seed. This is how meadows were traditionally managed.



**Glesyn cyffredin**
**Common blue**
*Polyommatus icarus*

**Pysen-y-ceirw**
**Common bird's foot trefoil**
*Lotus corniculatus*

## Pam fo dolydd mor dda ar gyfer bywyd gwyllt?

Mae glaswelltir sy'n cael ei adael i dyfu'n hir yn yr haf yn llawer gwell ar gyfer bywyd gwyllt na gwair sydd wedi'i dorri'n fyr.

### Pam?

Mae blodau gwyllt yn cael cyfle i dyfu a blodeuo yn ystod yr haf. Mae'r blodau yn denu pryfed fel gwenyn a gloÿnnod byw i'w peillio.

Mae'r blodau yn gallu hadu a dychwelyd y flwyddyn nesaf. O dipyn i beth, dros gyfnod o amser, daw'r glaswelltir yn fwy cyfoethog o ran blodau'r ddôl.

Mae gloÿnnod byw'n dodwy eu hwyau mewn dolydd, ac mae lindys yn bwydo ar y gwair hir.

Mae adar sy'n bwyta hadau, fel nicos yn cael digonedd o fwyd mewn dolydd.

Mae mamaliaid bach fel llygod y gwair a llygod y maes yn byw mewn dolydd, sy'n denu anifeiliaid eraill  sy'n eu bwyta e.e. y dylluan wen a'r cudyll coch

## Why are meadow areas so good for wildlife?

Grassland that is left to grow long in the summer is much better for wildlife than short mown grass.

### Why?


Wild flowers have a chance to grow and flower during the summer. The flowers attract insects such as bees and butterflies to pollinate them.

The flowers can then set seed and return next year. Gradually, over time, the grassland will become richer in meadow flowers.

Butterflies lay their eggs in meadows, and caterpillars feed on the long grass.

Seed-eating birds, such as goldfinches have plenty of food in meadows.

Small mammals such as voles and field mice make their homes in meadows, which attracts other animals to feed on them, e.g. barn owls and kestrels.



## Pryd rydym yn torri'r gwair yn ein hardaloedd bioamrywiaeth?

Mae pryd rydym yn torri'r gwair yn dibynnu ar beth rydym am ei annog ar y safle, **er enghraifft:**

Pe bai'r safle yn gallu bod yn dda ar gyfer gloÿnnod byw, rydym yn torri mor hwyr â phosibl yn y flwyddyn, neu hyd yn oed yn aros tan yn gynnar yn y flwyddyn wedyn.

I annog blodau penodol rydym yn aros tan yr adeg o'r flwyddyn maent wedi blodeuo ac wedi hadu cyn ein bod yn torri.

Os yw rhai ardaloedd yn wair gan fwyaf a ddim yn cynnwys llawer o flodau eto, gallwn dorri ddwywaith y flwyddyn a symud y gwair er mwyn gwneud y pridd yn llai ffrwythlon. Mae pridd sydd â ffrwythlondeb isel yn well ar gyfer blodau'r ddôl.

## Beth rydym yn ei wneud gyda'r gwair ar ôl ei dorri?

Awn ag o i'w gompostio. Pe bai'r gwair yn cael ei adael ar y safle byddai'n gwrteithio'r tir a byddai hynny, wedyn, yn rhwystro blodau'r ddôl. Nid yw'r rhan fwyaf o flodau'r ddôl yn gallu tyfu mewn pridd cyfoethog sydd wedi'i wrteithio.

## When do we cut our biodiversity areas?

When we cut the grass depends on what we want to encourage on the site, **for example:**


If the site could be good for butterflies, we will cut it as late as possible in the year, or even wait until early in the following year.

If we want to encourage particular plants we wait until the time of year when they have flowered and set seed before we cut.

If some areas are mostly grass and not yet very flower-rich, we may cut twice a year and remove the cuttings to try and reduce the fertility of the soil. Soil that is low in fertility is better for meadow flowers.

## What do we do with the cuttings?

We take them away to be composted. If we left them on the site the cuttings would fertilise the soil which would in turn discourage meadow flowers. Most meadow flowers are unable to grow in rich fertilised soil.



**Gwyn blaen oren**
**Orange tip**
*Anthocharis cardamines*

**Blodyn llefrith**
**Cuckoo flower**
*Cardamine pratensis*

## A yw'n bosibl i mi greu mannau bywyd gwyllt gartref?

Ydi. Mae pethau syml fel gadael mannau o wair hir neu brysg, creu dolydd o flodau gwylltion, gwneud cartrefi i famaliaid a phryfed a phlannu planhigion sy'n denu bywyd gwyllt i gyd yn gallu annog mwy o fywyd gwyllt i ddod i'ch cartref. Mae hyd yn oed un newid bach yn gallu helpu i wneud eich gardd yn lle gwell ar gyfer bywyd gwyllt. Os ydych yn dymuno cael cyngor ar annog mwy o fywyd gwyllt i ddod i'ch cartref ffoniwch Garddio Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ar **(01248) 360981**.

I gael rhagor o wybodaeth am y syniadau yn y daflen hon, ffoniwch Adain Barciau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar **(01492) 575337**. Byddai Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor yn falch o glywed am unrhyw fywyd gwyllt rydych wedi'i weld ar ymweliadau ag Ardaloedd Bioamrywiaeth; ffoniwch **(01492) 575123**.

## Can I create wildlife areas at home?

Yes. Simple things such as leaving areas of long grass or scrub, creating wildflower meadows, making insect and mammal homes and planting wildlife-friendly plants can all encourage more wildlife into your home. Even one small change can help make your garden a better place for wildlife. If you would like advice on encouraging more wildlife to your home please contact Wildlife Gardening North Wales on **(01248) 360981**.

For further information on the ideas in this leaflet, please contact Conwy County Borough Council's Parks Section on **(01492) 575337**. The Council's Biodiversity Officer would also love to know about any wildlife you have seen visiting Biodiversity Areas; please phone **(01492) 575123**.



**Copr bach**
**Small copper**
*Lycaena phlaeas*

# Amlygu 4
# Ardal Bioamrywiaeth

# Spotlight on 4
# Biodiversity Areas





1: Pentrefoelas




2: Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Hen Golwyn
North Wales Police Headquarters, Old Colwyn




3: Deganwy




4: Tir Prince, Towyn

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
100023380 2010

© Crown copyright. All rights reserved
Conwy County Borough Council
100023380 2010

1.

## Safle Picnic ac Ardal Bioamrywiaeth Pentrefoelas

Rheolir y safle picnic prysur hwn ar gyfer pobl a bywyd gwyllt mewn cysylltiad agos â Chyngor Cymuned Pentrefoelas. Rydym yn rheoli rhai mannau fel dôl, i annog y planhigion sy'n blodeuo fel pys ceirw, meillion llwydion, clafrllys a llysiau'r cywair.

Mae ardal bicnic a chwarae hyfryd a lle ar gyfer bywyd gwyllt. A dweud y gwir, mae'n cael ymwelydd eithaf gwibiog – dyfrgi! Yn anffodus nid ydych yn debygol o'i weld gan ei fod yn dod gyda'r nos yn unig.

## Pentrefoelas Picnic Site and Biodiversity Area

This busy picnic site is managed for people and wildlife in close association with Pentrefoelas Community Council. We are managing some areas as a meadow, to encourage the flowering plants such as bird's-foot trefoil, red clover, field scabious and lady's bedstraw.

There is a lovely picnic and play area and space for wildlife. In fact, it gets a rather elusive visitor - an otter! Unfortunately you are unlikely to see him as he only visits at night.



**Dyfyrgi**
**Otter**
*Lutra lutra*

2.

## Ardal Bioamrywiaeth Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Hen Golwyn

Mae'r safle hwn wedi'i reoli fel Ardal Bioamrywiaeth ers 2003. Mae wedi'i adael fel dôl yn yr haf a'i dorri a'i fyrnu o gwmpas mis Awst. Mae'r newidiadau wedi bod yn syfrdanol. O fod yn gau glaswelltog anniddorol, mae rwan yn ddôl hyfryd gyda 4 rhywogaeth o degeirian: tegeirian gwenynog: tegeirian bera, caldrist lydanddail a'r tegeirian cyffredin.

Mae'r Ardal Bioamrywiaeth hon wedi'i rheoli mewn partneriaeth rhwng Adain Barciau, Gwasanaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Heddlu Gogledd Cymru.

**Gwiriwch gyda derbynfa Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru os ydych yn dymuno ymweld â'r ddôl.**

## North Wales Police Headquarters Biodiversity Area, Old Colwyn

This site has been managed as a Biodiversity Area since 2003. It has been left as a meadow in the summer and cut and baled around August. The changes have been amazing. From what was an uninteresting grassy field, it is now a beautiful meadow with 4 species of orchid: the bee orchid, pyramidal orchid, broad-leaved helleborine and common spotted orchid.

This Biodiversity Area is managed in partnership between the Parks Section, the Countryside and Rights of Way Service of Conwy County Borough Council and the North Wales Police.

**Please check with the North Wales Police Headquarters reception if you wish to visit the meadow.**



◄ **Tegeirian bera**
**Pyramidal orchid**
*Anacamptis pyramidalis*



◄ **Tegeirian y wenynen**
**Bee orchid**
*Ophrys apifera*

3.

## Ardal Bioamrywiaeth Promenâd Deganwy

Mae'r Ardal Bioamrywiaeth hon ar lan y môr yn cynnwys llawer o blanhigion arbenigol sydd wedi'u haddasu ar gyfer yr amgylchiadau tywodlyd a hallt. Mae'r fôr-gelynnen yn blanhigyn trawiadol glas niwlog gyda dail a drain cwyraidd i helpu i leihau faint o ddŵr sy'n cael ei golli o'r dail. Os edrychwch yn ofalus byddwch hefyd yn gweld tagaradr a phig y crëyr.

## Deganwy Promenade Biodiversity Area

This seaside Biodiversity Area has lots of specialist plants that are adapted to the sandy, salty conditions. The sea holly is a striking misty-blue plant with waxy leaves and spines to help reduce water loss from the leaves. If you look closely you will also find restharrow and common stork's-bill.



◄
**Tagaradr**
**Common restharrow**
*Onionis repens*

**Môr-gelynnen**
**Sea holly**
*Eryngium maritimum*
▼



4.


## Tir Prince
## Ardal Bioamrywiaeth, Towyn

Roedd trigolion lleol ger Tir Prince wedi gofyn i'r Cyngor greu Ardal Bioamrywiaeth yn y Parc. Cloddiwyd pyllau bas dros dro, a elwir yn 'grafiadau' a gadawyd i'r glaswelltir dyfu'n hir. Rŵan, mae'r crafiadau yn denu adar hirgoes fel y coesgoch yn ystod y gaeaf. Yn yr haf, gallwch ddarganfod gweision y neidr a llawer o rywogaethau o loÿnnod byw. Mae heidiau o bincod yn ymweld yn yr hydref a'r gaeaf i fwyta'r hadau.

## Tir Prince
## Biodiversity Area, Towyn

Local residents near Tir Prince asked the Council to create a Biodiversity Area in the Park. Shallow temporary ponds, called 'scrapes' were dug out and the grassland was left to grow long. The scrapes now attract wading birds such as redshank during the winter. In summer, you can find dragonflies and many different species of butterflies. Flocks of finches visit in the autumn and winter to feed on the seed heads.





**Nico**
**Goldfinch**
*Carduelis carduelis*

**Marchysgallen**
**Spear thistle**
*Cirsium vulgare*

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL


## Adain Barciau

Gwasanaethau Amgylcheddol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Swyddfeydd Mochdre
Ffordd Conwy
Mochdre
LL28 5AB.

## Parks Section

Environment
Conwy County Borough Council
Mochdre Offices
Conway Road
Mochdre
LL28 5AB

**01492 575337**




**Illustrations: sean slater**


Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cadwch Gymru'n Daclus
Keep Wales Tidy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Os ydych angen y daflen hon mewn print bras, ffoniwch 01492 575 123.

If you require this leaflet in large print, please telephone 01492 575 123.

Cafodd y daflen hon ei gwneud gyda phapur wedi ei ailgylchu.

This leaflet was made using recycled paper.

